

Lyn Cadwallader - Prif Weithredwr

Mae gan Lyn gyfrifoldeb ariannol a gweithredol am redeg Un Llais Cymru fel y corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer y sector Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

Cyn dechrau yn ei swydd bresennol roedd ganddo 19 mlynedd o brofiad o lywodraeth leol a'r sector tai yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae wedi graddio mewn Daearyddiaeth ac mae ganddo gymwysterau graddedig mewn Tai, Gweinyddu Busnes ac Arweinyddiaeth. Mae'n aelod o'r Sefydliad Tai Siartredig.

Mae wedi cyflawni amrywiaeth o rolau ar gyrrff Cyngori Llywodraeth Cymru ers ymuno ag Un Llais Cymru gan gynnwys Bwrdd Cyngori Ystadau Cymru, Panel Cyngori Natur a Ni Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bwrdd Cyngori Technegol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Grŵp Gweithredu Gweinidogol ar Adfywio Canol Trefi, Adran 6 Gweithgor Deddf yr Amgylchedd, Fforwm Cydnerthedd Cymunedol Cymru, Bwrdd Cyngori Amrywiaeth mewn Democratiaeth, Fforwm Cyngori'r Gweinidog ar Heneiddio ac yn fwy diweddar Grŵp Cyngori Iechyd Digidol Cyngorau Cymuned a Thref.

Mae'n aelod o Fwrdd Ymgynghorol 'WISERD' ac yn gyn-Gadeirydd Panel Cist Gymunedol Sir Fynwy (SPORTLOT). Mae'n aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Natur Gwent.